

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Orffennaf 2015

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Hefin Edwards, Ieuan Jones, Alun Jones, John D Jones, Helen Ellis, Prys Ellis, Peter Lewis Cyng Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Guto G Jones.

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fehefin 2015

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd ateb siomedig gan Siân Williams yn amlinellu bod mwy o angen gwario arian ar y llwybrau sydd yn cael ei defnyddio'n aml. Penderfynwyd ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Y clerch i anfon manylion ynglŷn â'r gymuned ymlaen i'r Cyngor Sir

[1.3] Gwasanaeth Iechyd

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Gwasanaeth Sgip

Y clerch i wneud trefniadau ar gyfer sgip yn y pentref yn niwedd Medi.

[1.5] Goleuadau Nadolig

Eglurodd y clerch bod y trydanydd yn cynghori na fyddai goleuadau solar yn addas. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach gyda'r Cyngor Sir ar gyfer y sgwâr yn y llan.

[1.6] Arwyddion Cwn

Esboniodd y clerch nad oedd unrhyw sylw pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir.

Y brif agenda

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Newid defnydd o dir yn Llyn Brenig I faes chwarae antur a.y.b.

[b] Estyniad deulawr tu cefn i'r eiddo. 7 Ffordd Tan Llan, Cerrig-y-Drudion.

[c] Amnewid peiriant arian parod allanol gyda model newydd. HSBC, Topllan, Cerrig-y-Drudion.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri chais uchod.

[1.8] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Dywedodd y clerch nad oedd unrhyw sylwadau wedi ei gwneud gan yr archwiliwr.

[2] Hylwysydd Tai Gwledig

Eglurodd y clerch y bydd hwylusydd tai Ms Buddug Williams yn anfon crynodeb o ganlyniad y cyfarfod a gynhaliwyd yn y ganolfan ar y 25ain Fehefin.

[2.1] Traciau Beics

Deallwyd nad oedd y symbol bellach ar y pyst yn cyfeirio bod y trac ar gyfer beicio.. Y clerch i wneud ymholiadau.

[2.2] Gwasanaethau Cyhoeddus

Eglurodd y Cyng Peter Lewis ei bod yn holl bwysig i wneud gymaint â phosib o ddefnydd o wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig cludiant cyhoeddus a.y.b.

[2.2] Nodwyd y wybodaeth Canlynol

[a] Gwasanaeth Ombwdsman Cymru, Adroddiad Blynyddol

[b] Ymgynghoriad ar Ddarpariaeth Gwasanaeth Cofrestru yng Nghonwy.

Cadeirydd _____